**Cyfarfod Bwrdd Cynghori Taith – Cofnodion**
**19 Hydref 2022, 10.30am – 12.30pm**
**Cyfarfod Teams Ar-lein**

**Yn Bresennol:**

- Kirsty Williams, Cadeirydd y Bwrdd Cynghori (KW)
- Calum White, Llywodraeth Cymru (CW)
- Colin McInnes, Addysg Uwch Cymru Brwsel (CMI)
- Colin Riordan, Prifysgol Caerdydd (CR)
- Craig Matthews, Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid yr Awdurdodau Lleol (CM)
- David Price, ColegauCymru (DP)
- Delyth Lewis, Senedd Ieuenctid Cymru (DL)
- Gareth Morgans, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (GM)
- Helen Jones, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (HJ)
- Rob Humphreys, y Sefydliad Dysgu a Gwaith (RH)

**Dirprwyon:**

- Lisa Mytton (yn lle John Nash), Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (LM)
- Katy Davenport (yn lle Maria Hinfelaar), Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (KD)

**Ymddiheuriadau:**

- Amanda Wilkinson, Prifysgolion Cymru
- Ben Calvert, Partneriaeth Cymru Fyd-eang
- Harriet Barnes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a'i olynydd
- Joe Atkinson, UCM Cymru

**Wedi'u gwahodd:**

- Paul Glaze, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CTS) (PG)
- Kari Morgan, Clybiau Bechgyn a Merched Cymru (CTS) (KM)
- Amanda Morgan, Cysylltiadau Rhyngwladol (CTS) (AM)
- Mark Baines, Addysg Oedolion Cymru (CTS) (MB)
- Gwen Williams, Prifysgolion Cymru/Cymru Fyd-eang (GW)

**Corff Gweithredol Taith:**

- Susana Galvan (SG)
- Elid Morris (EM)
- Ellie Bevan (EB)
- Simona Cavani (SC)
- Walter Brooks (WB)
- Sarah Morgan (SM)
- Claire Richardson (cymorth logisteg y cyfarfod)
- Nicole Abreu (cymorth logisteg y cyfarfod)

**Cofnodion:** Claire Richardson, Corff Gweithredol Taith

| Eitem | Prif bwyntiau i'w trafod | Camau gweithredu/Penderfyniadau allweddol |
|---|---|---|
| Croeso a chyflwyniadau (KW) | Nododd KW fod yr Athro Iwan Davies wedi rhoi'r gorau i'w rôl ar y Bwrdd Cynghori, a diolchwyd iddo am ei gyfraniad. Mae Dr Ben Calvert wedi cymryd ei le fel cynrychiolydd Partneriaeth Cymru Fyd-eang.<br>Aeth KW ati i groesawu Craig Matthews i'w gyfarfod gyntaf ar y Bwrdd Cynghori fel cynrychiolydd Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid yr Awdurdodau Lleol. | |
| Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r camau gweithredu | Cytunodd yr aelodau fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn adlewyrchu'r drafodaeth yn gywir.<br>Roedd y camau gweithredu fel a ganlyn:<br>- Cyhoeddi cofnodion y cyfarfod ar wefan Taith – Cwblhawyd<br>- Rhannu'r papur terfynol ar Lwybr 2 a chrynodeb o'r adborth o'r ymgyngoriadau gyda'r aelodau – Cwblhawyd | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Rhoi adborth adeiladol ar geisiadau ar gyfer Llwybr 1 – Parhaus<br>- Gwerthuso data Llwybr 1 a'r Cyrff Trefnu Sectorau i helpu i ddatblygu Llwybr 3 – Parhaus<br>- Gwerthuso model y Cyrff Trefnu Sectorau i helpu i wneud penderfyniadau ynghylch galwad newydd posibl yn 2023 – Parhaus<br>- Rhannu sleidiau'r cyflwyniadau gyda'r aelodau – Cwblhawyd<br>- Cyhoeddi'r cyflwyniadau byr gan y Cyrff Trefnu Sectorau ar wefan Taith – Cwblhawyd<br>- Ystyried adolygiad y Sefydliad Llywodraethu Da o lywodraethiant Taith – Eitem ar yr agenda i'w thrafod heddiw<br><br>Ni chafwyd unrhyw gwestiynau. | |
| Diweddariad gan Gorff Gweithredol Taith<br><br>i. Polisi a Rhaglenni (SG)<br>ii. Gweithrediadau (EM)<br><br>iii. Cyfathrebu (SM) | i) Rhoddodd SG ddiweddariad ar Lwybr 1, o ran cynnydd a hefyd ganlyniadau galwad 2022 Llwybr 1 i gyflwyno cais am gyllid. Mae data ar hyn i'w weld yn sleidiau'r cyfarfod. Rhannwyd manylion galwad Llwybr 2 gyda'r aelodau cyn y bydd cyllid Llwybr 1 yn cael ei roi yn 2023. Rhoddwyd diweddariad ar Lwybr 3 a'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu'r llwybr hwn.<br>Rhoddodd SG ddiweddariad bras ar y canlynol, hefyd:<br>- rôl y Cyrff Trefnu Sectorau a'r gwerthusiad o'r alwad beilot i gyflwyno cais am gyllid<br>- rôl Cymru Fyd-eang III<br>- y diddordeb sy'n deillio o ymgysylltiad rhyngwladol â Taith a gwaith Corff Gweithredol Taith a rhanddeiliaid yn y maes hwn<br>- Gwaith Cymru Fyd-eang III i recriwtio i Gorff Gweithredol Taith<br><br>Mynegodd SG bryderon ynghylch effaith yr argyfwng costau byw a'r effaith y gallai hyn ei chael ar fuddiolwyr, targedau a pholisïau ehangu cyfranogiad. Bydd angen trafod ac ymchwilio i'r mater hwn ymhellach.<br><br>ii) Rhoddodd EM ddiweddariad ar y canlynol:<br>- y gwaith o werthuso model y Cyrff Trefnu Sectorau, i'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn<br>- y gwerthusiad annibynnol o Taith a Chymru Fyd-eang III | **Cam gweithredu – Trafod yr argyfwng costau byw ymhellach gyda rhanddeiliaid** |

| | | |
|---|---|---|
| | - Llwybr 1, gan gynnwys y broses o anfon a chael y llythyrau Cytundeb Grant, taliadau cyntaf a'r cymorth sy'n cael ei ddatblygu i helpu buddiolwyr i gyflawni prosiectau a chyflwyno adroddiadau – mae gwybodaeth am hyn i'w gweld yn sleidiau'r cyfarfod<br><br>(11.13am) Gadawodd CMI y cyfarfod.<br><br>iii) Rhoddodd SM wybodaeth am y gwaith cyfathrebu sy'n cael ei wneud ar gyfer Llwybr 1, yn ogystal â Llwybr 2, a chynlluniau cyfathrebu yn y dyfodol i ddatblygu Taith.<br><br>Gofynnwyd cwestiynau mewn perthynas â sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu o geisiadau aflwyddiannus yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ceisiadau yn y dyfodol ar draws pob sector. Yn ogystal â hynny, croesawyd yr adolygiad o effaith yr argyfwng costau byw, am fod pob sector yn pryderu am hyn. Mynegwyd pryderon hefyd am fynnu diweddariadau misol, yn arbennig gan ysgolion. Gwnaeth KW a SG gydnabod y pwyntiau a godwyd ac awgrymu bod cyfarfod yn cael ei drefnu i drafod hyn.<br><br>Gwnaed sylwadau mewn perthynas ag ail alwad Llwybr 1 ar gyfer y sector Addysg Bellach a'r sector Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol. Byddai'r sector Addysg Bellach yn ffafrio cyflwyno cais fel consortiwm, a byddai'r terfyn o 40% fesul cais yn cyfyngu ar y gallu i wneud hyn.<br><br>Cafwyd cais hefyd i rannu'r cyflwyniadau gyda'r aelodau cyn y cyfarfod. Cydnabu SG y pwyntiau a godwyd, a chytunodd i rannu cyflwyniadau cyn cyfarfodydd y Bwrdd Cynghori.<br><br>Gwnaed sylwadau ychwanegol, a chafodd rhai profiadau o'r argyfwng costau byw yn y sector Ieuenctid eu rhannu. | **Cam gweithredu – Trefnu cyfarfod gyda rhanddeiliaid perthnasol i drafod yr amserlen adrodd ar gyfer ysgolion**<br><br>**Cam gweithredu – Rhannu cyflwyniadau gyda'r aelodau cyn cyfarfodydd** |
| Diweddariad ar Gymru Fyd-eang III (GW) | Rhoddodd GW ddiweddariad ar Gymru Fyd-eang III a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y tîm ar hyn o bryd i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y DU ac yn rhyngwladol.<br>Mae ymgyrchoedd hydref Astudio yng Nghymru'n cael eu lansio, a'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw rhoi colegau addysg bellach ar wefan Astudio yng Nghymru a'u gwneud yn rhan o'r brand. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni chafwyd unrhyw gwestiynau. | |
| Diweddariad gan y Cyrff Trefnu Sectorau (PG, KM, AM, MB) | Cafwyd cyflwyniad gan PG a KM ar y gwaith a wnaed ganddynt fel Corff Trefnu'r Sector Ieuenctid. Aethant ati i sôn am brofiadau cadarnhaol y sector o Lwybr 1 a'r diddordeb sydd i'w weld, fel petai, yn Llwybr 2. Fodd bynnag, gwnaethant dynnu sylw at bryderon am yr argyfwng costau byw a'r effaith y mae'n ei chael ar ymgeiswyr llwyddiannus, gan gynnwys y costau uwch a ddisgwylir. Gwnaethant sôn am yr angen i gyfathrebu'n glir, oherwydd y dryswch ynghylch ail alwad Llwybr 1 i gyflwyno cais am gyllid. Mae'r dryswch hwn yn deillio o'r argraff nad yw sectorau eraill yn cael eu cynnwys, am fod yr alwad hon ar gyfer y sector Addysg Uwch a'r sector Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yn unig Mae'r sectorau hefyd yn pryderu am y terfynau ar gyllid Llwybr 2 a diffyg cyllid Llwybr 3 i feithrin capasiti.<br><br>Aeth AM ati i roi cyflwyniad ar waith Corff Trefnu'r Sector Ysgolion a rhoi gwybod bod rhai agweddau ar y broses ymgeisio ar gyfer Llwybr 1 yn rhwystr i ysgolion. Er hynny, cydnabuwyd bod Taith yn gwneud newidiadau ac yn cynnig cymorth ychwanegol. Nid oedd ysgolion yn rhagweld faint o amser sydd ei angen i wneud cais, ac mae'r rhai a fu'n aflwyddiannus wedi digalonni. Mae fel petai ysgolion yn chwilio am bartneriaid penodol iawn, ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i ddod o hyd i bartneriaid addas mewn rhanbarthau penodol. Efallai y bydd angen trafod gofynion asesu risg Awdurdodau Lleol ar gyfer ymweliadau dramor er mwyn sicrhau nad yw'r gofynion hynny'n cael effaith ar allu ysgolion i gyflawni symudedd dramor.<br>Gwelir diddordeb iach yn Llwybr 2 ymhlith ysgolion, ond gallai'r terfyn o 30% ar gostau'r staff arwain at lai o geisiadau.<br>Mae ysgolion a gyflwynodd gais llwyddiannus ar gyfer Llwybr 1 yn pryderu am gostau byw, am fod costau ym mhobman wedi codi ers i'r ceisiadau gael eu cyflwyno.<br><br>Rhoddodd MB gyflwyniad ar waith Corff Trefnu'r Sector Addysg Oedolion. Gofynnodd a allai gwybodaeth am y ceisiadau llwyddiannus gael ei rhannu'n gynharach gyda'r Corff Trefnu er mwyn iddo nodi'r rhesymau pam mae ceisiadau'n cael eu gwrthod, gan gynnwys themâu cyffredin yn y sector, a chefnogi'r sector ymhellach.<br>Nid oedd yr amser a roddwyd i gyflwyno cais ar gyfer Llwybr 1 yn gweithio'n dda i'r sector, ond tynnodd MB sylw at y ffaith bod Taith eisoes wedi gwneud newidiadau. Mae rhoi mwy o amser i gyflwyno cais ar gyfer Llwybr 2 yn enghraifft o hynny. | **Cam gweithredu – Annog rhoi adborth ar yr argyfwng costau byw i Gorff Gweithredol Taith**<br><br>**Cam gweithredu – Seilio gwaith i'w wneud gan Gorff Gweithredol Taith dros yr hydref ar wybodaeth am geisiadau aflwyddiannus er mwyn helpu i gefnogi ceisiadau yn y dyfodol** |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd bod dod o hyd i bartneriaid addas dramor, a phryderon am gostau byw, yn her.  Ar y cyfan, roedd profiadau'r sector Addysg Oedolion yn gadarnhaol.<br><br>Ni chafwyd unrhyw gwestiynau. | **Cam gweithredu – Datblygu system, o bosibl, ar gyfer rhoi cymorth i ddod o hyd i bartneriaid addas** |
| Adolygiad o lywodraethiant Taith – Camau nesaf **(Papur 1)** (KW) | Aeth KW ati i drafod y papur yn fras a nodi bod chwe argymhelliad yn ymwneud â'r Bwrdd Cynghori.  Gofynnwyd i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw sylwadau.  Tynnodd KW sylw at y ffaith mai gwneud y Cadeirydd yn rhan o Fwrdd y Cyfarwyddwyr oedd un o'r argymhellion.  Cadarnhawyd bod hyn eisoes wedi'i wneud.<br><br>Cadarnhaodd CR ei fod yn fodlon, yn unol â'r argymhellion, roi'r gorau i fod yn aelod o'r Bwrdd Cynghori ac y bydd yn gwneud hynny pan fydd yn ymddeol o'i swydd ym Mhrifysgol Caerdydd yn hwyrach eleni.<br><br>Cafwyd cais gan yr aelodau i drefnu bod gwefan Taith yn cynnwys gwybodaeth am Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Dywedodd SG fod yr adolygiad o lywodraethiant yn argymell gwneud hyn. Cadarnhaodd y bydd cofnodion cyfarfodydd a gwybodaeth am aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.<br><br>Cafwyd cais i esbonio'r berthynas rhwng Cymru Fyd-eang a Taith a threfnu bod manylion y strwythur, gan gynnwys lle Cymru Fyd-eang yn y strwythur hwnnw, yn fwy gweladwy.  Gwnaeth EM gydnabod y cais.<br><br>Yn ogystal â hynny, trafodwyd yr argymhelliad i greu is-bwyllgorau, a gofynnwyd a fyddai archwilio'n rhan o waith un o'r rhain.  Cadarnhaodd SG y bydd adolygiad yn cael ei gynnal i ddeall rolau'r gwahanol fyrddau ac y bydd y Sefydliad Llywodraethu Da'n cefnogi'r gwaith o weithredu ar yr argymhellion.  Cadarnhaodd EM y bydd archwilio'n rhan o gylch gorchwyl un o'r is-bwyllgorau. | **Cam gweithredu – Trefnu bod gwefan Taith yn dangos pwy sy'n aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ac yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd**<br><br>**Cam gweithredu – Datblygu'r strwythur, i ddangos y berthynas â Chymru Fyd-eang, a'i gyflwyno ar ffurf diagram**<br><br>**Cam gweithredu – Rhannu'r manylion ar gyfer is-bwyllgorau newydd gyda'r aelodau pan fydd adolygiad wedi'i gynnal** |

| | | |
|---|---|---|
| | Tynnwyd sylw at y ffaith mai rhoi cyngor i Gorff Gweithredol Taith yw rôl y Bwrdd Cynghori a bod angen gwell dealltwriaeth o'r cyngor sydd ei angen gan y Bwrdd Cynghori.  Dylid rhannu llai o wybodaeth mewn cyfarfodydd a rhoi mwy o amser i aelodau gyfrannu. Gwnaeth KW gydnabod y pwyntiau a bod angen gwerthuso rôl y Bwrdd Cynghori, fel y nodir yn yr adolygiad o lywodraethiant.  Cynigiodd gael cyfarfodydd un-i-un gyda rhanddeiliaid sydd â sylwadau neu syniadau yr hoffent eu trafod. | **Cam gweithredu – Adolygu rôl y Bwrdd Cynghori, yn unol ag argymhellion yr adolygiad o lywodraethiant** |
| Unrhyw faterion eraill (KW) | Ni chodwyd unrhyw faterion eraill. | |
| Dyddiad y cyfarfod nesaf | 9 Chwefror 2023 | |